

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 1 Chwefror 2018

**STATWS: CYDYMFFURFIO**

**CATEGORI: POLISI**

**Teitl:** Fframwaith Polisi'r DU ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Dyddiad dod i ben/Adolygu:** Fel y bo angen

**I'w weithredu gan:**

Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd

**Angen gweithredu erbyn:** Ar unwaith

**Anfonwyd gan:** Carys Thomas, Pennaeth Strategaeth Ymchwil a Datblygu'r GIG, Yr Is-adran Ymchwil a Datblygu

**Enw(au) Cyswllt AIGC yn Llywodraeth Cymru:**

Claire Bond, Rheolwr Perfformiad a Chyllid y GIG  
Yr Is-adran Ymchwil a Datblygu, 4ydd Llawr  
Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ  
Ffôn: 03000 62 3591 E-bost: [HSSDHPDSCHR@gov.wales](mailto:HSSDHPDSCHR@gov.wales)

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Fframwaith Polisi'r DU ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol – gweler y ddolen

## **Crynodeb**

1. Diben y Cylchlythyr Iechyd Hwn yw tynnu sylw at gyhoeddi Fframwaith Polisi'r DU ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol
2. Cyhoeddwyd y Fframwaith Polisi ar 16 Hydref 2017, a chewch fynd ato drwy wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru:  
<https://www.healthandcareresearch.gov.wales/research-governance-framework/>
3. Mae'r fframwaith polisi hwn yn nodi egwyddorion arfer da wrth reoli a chynnal ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU. Mae'r egwyddorion hyn yn amddiffyn ac yn hyrwyddo buddiannau cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd ym maes ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol drwy ddisgrifio sut i gynnal a rheoli ymchwil yn y maes mewn ffordd foesebol a chymesur sy'n seiliedig ar sicrwydd. Diben hyn oll yw cefnogi a hwyluso ymchwil o'r radd flaenaf yn y DU.
4. Mae hwn yn fframwaith ar gyfer sefydliadau ac unigolion sydd â chyfrifoldeb am ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cyllidwyr, noddwyr, ymchwilwyr a'u cyflogwyr, safleoedd ymchwil a darparwyr gofal.

## **Cam gweithredu**

5. Disgwylir i Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd roi trefniadau cadarn ar waith i fodloni gofynion y polisi hwn, lle bo hynny'n briodol.
6. Dylai Prif Weithredwyr Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd sicrhau bod y cylchlythyr iechyd hwn yn cael ei rannu gyda chydweithwyr a bod y camau gweithredu perthnasol yn cael eu cymryd.

## **Cefndir**

7. Mae'r canllawiau newydd yn disodli'r Fframweithiau Llywodraethu Ymchwil Blaenorol a gyhoeddwyd yng Nghymru yn 2001 a 2009. Mae'r ddogfen hon yn darparu un set o egwyddorion modern i'w gweithredu ar draws y DU gyfan. Cafodd y ddogfen ei datblygu gan yr Awdurdod Ymchwil Iechyd yn Lloegr a'r adrannau iechyd yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban, ar ôl cynnal ymgynghoriad cyhoeddus.

**Anfonir at:**

**Ysgrifenyddion Bwrdd, Prif Weithredwyr a Chadeiryddion:**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda  
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys  
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Ymddiriedolaeth GIG Felindre  
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru  
Ysgrifennydd Grŵp yr Ysgrifenyddion Bwrdd  
Cyfarwyddwr, Cyfarwyddwr Cyllid, a Chyfarwyddwr Cynllunio Iechyd Cymru  
Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

**Cyfarwyddwyr Meddygol, Cyfarwyddwyr Ymchwil a Datblygu, Cyfarwyddwyr Nyrsio, Cyfarwyddwyr Therapiau a Gwyddorau Iechyd:**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda  
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Llywodraeth Cymru**

Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG Cymru  
Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru  
Tîm Gweithredu AIGC  
Tîm Cyfathrebu'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Prif Swyddog Meddygol  
Prif Swyddog Nyrsio  
Prif Swyddog Gwyddonol  
Prif Fferyllydd  
Dirprwy Gyfarwyddwr Cyflyrau Iechyd Difrifol  
Y Dirprwy Gyfarwyddwr ar gyfer Gofal Sylfaenol